**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD**
**16 IONAWR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2018.

**YN BRESENNOL:** **Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, Veronica Gay, Dave Hughes, Joe Johnson, Colin Legg, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Ian Dunbar (ar ran Cindy Hinds) a David Healey (ar ran David Evans)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Derek Butler

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Clive Carver, Dennis Hutchinson, Richard Jones, Mike Peers a Dave Mackie (fel dechreuwyr y galw i mewn nad oedd yn Aelodau o'r Pwyllgor)
Y Cynghorwyr: Christopher Bithell, Rob Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood Christine Jones, a David Wisinger (fel arsyllwyr)

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; Prif Weithredwr, Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd), Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol,
Rheolwr Cyllid, Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd, Cydlynydd Strydwedd

**SWYDDOGION:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Pwyllgor

**52. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim.

**53. YSTYRIED MATER A ATGYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR YN UNOL Â'R TREFNIADAU GALW I MEWN**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r drefn ar gyfer galw Penderfyniad Cabinet i Mewn fel y manylwyd yn y ddogfen ategol. Roedd y Cabinet wedi ystyried adroddiad ar *Gyflwyno Ffioedd Gwastraff Gardd yn Sir y Fflint* yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2017. Roedd y penderfyniad (Cofnod o Benderfyniad 3469) wedi'i alw i mewn gan y Cynghorwyr Mike Peers, Richard Jones, Dave Mackie, Dennis Hutchinson a Clive Carver. Roedd copïau o adroddiad y Cabinet, y Cofnod o Benderfyniad a'r Hysbysiad Galw i Mewn wedi eu nodi fel pump rheswm dros alw i mewn, wedi eu cynnwys gyda phapurau'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod.

## 54. CYFLWYNO'R FFIOEDD GWASTRAFF GARDD YN SIR Y FFLINT

Ar ran y llofnodwyr galw i mewn, siaradodd y Cynghorydd Mike Peers i ddechrau. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at arolwg diweddar ym mhapur newydd y Leader lle'r oedd 88% o ymatebwyr yn erbyn codi ffi am gasglu gwastraff gardd a 12% yn unig o blaid. Hefyd cyfeiriodd at negeseuon e-bost a dderbyniwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned yn gwrthod y cynnig.

Rheswm 1: Nid yw'r cynigion yn alinio gyda Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Casglu Gwastraff yng Nghymru.

Dywedodd y Cynghorydd Peers fod y penderfynwyr wedi methu pwynt y Glasbrint, sef hybu compostio cynnyrch cartref a chyflwyno ffioedd ar gyfer casglu gwastraff gardd. Ategodd y Cynghorydd Richard Jones nad oedd y cynnig yn alinio gyda'r glasbrint yr oedd yn tybio fod yr holl Aelodau wedi'i ddarllen. Dywedodd fod y glasbrint yn rhagweld dull dau gam gyda chompostio i ddechrau ac yna codi tâl gyda'r bwriad i gyflawni dim gwastraff a lleihau'r ôl-troed carbon. Roedd yr elfen codi tâl gyda'r Glasbrint Gwastraff wedi'i fwriadu fel ysgogiad i leihau gwastraff a chostau tirlenwi ac nid creu llif incwm i'r Sir. Dywedodd y dylid codi tâl os bydd popeth arall yn methu, gyda chompostio fel moronen a chodi tâl yn ffôn fawr.

Rheswm 2: Cabinet yn ystyried cymeradwyo'r cynigion yn defnyddio Cofnodion Craffu wedi eu cymeradwyo ac anghywir.

Atgoffodd y Cynghorydd Peers y Pwyllgor nad oedd y cofnodion a ddefnyddiwyd yn y Cabinet wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor ac roeddent yn anghywir oherwydd diffyg manylder ar ei gynnig.

Rheswm 3: Nid oedd y cynigion yn ystyried pobl hŷn a diamddiffyn o'r cyflwyniad arfaethedig o ffioedd gwastraff gardd ar 1 Ebrill 2018.

Roedd y Cynghorydd Peers yn teimlo nad oedd yr effaith ar bobl hŷn a diamddiffyn wedi'i ystyried yn iawn; barn oedd yn cael ei adleisio gan y Cynghorydd Richard Jones oedd yn teimlo bod y ffi yn annheg a byddai'n effeithio ar bobl heb gerbyd.

Rheswm 4: Mae'r ffioedd yn afresymol, yn groes i Ddeddf yr Amgylchedd 1990 ac o'u cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Barn y Cynghorydd Peers oedd bod y ffioedd a gynigiwyd yn uwch na'r ffioedd gan awdurdodau cyfagos. Aeth ymlaen i ddweud bod y cynnig i godi ffi am yr ail a'r trydydd bin yn anghymesur ac yn afresymol.

Roedd y Cynghorydd Richard Jones wedi nodi capasiti'r biniau gwastraff gardd a ddefnyddir gan dri o Awdurdodau Gogledd Cymru a Chyngor Cilgwri ynghyd â'r ffioedd. Dywedodd fod y ffigyrau hyn yn dangos y bydd y cynigion ar gyfer codi tâl yn Sir y Fflint llawer drutach nag awdurdodau eraill oherwydd capasiti ciwbig y biniau ac amlder casglu. Teimlodd nad oedd y dull hwn yn deg nac yn gynaliadwy.

Rheswm 5: Er mwyn asesu adfer cost llawn, nid yw costau manwl y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd yn hysbys ac nid oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau Craffu na Chabinet.

Roedd y Cynghorydd Peers yn gofyn a oedd corff fel CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth) wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r Cyngor i weithredu'r Glasbrint. Roedd o'r farn nad oedd y Glasbrint yn rhagweld y byddai'r arian casglu gwastraff gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i groes gymorthdalu ailgylchu sych neu gasglu bwyd.

Aeth y Cynghorydd Richard Jones ymlaen i ddweud bod y dull adfer cost llawn yn groes i'r cyngor glasbrint. Roedd o'r farn na fyddai pobl yn cyfrannu at gynllun oedd yn ddrud ac yn ymddangos yn afresymol, a byddent yn dod o hyd i ffyrdd eraill i arbed £30 y flwyddyn naill ai drwy gompostio, teithio i safleoedd HRC, tipio anghyfreithlon neu adael i'r gwastraff gardd gronni. Roedd yn rhagweld y byddai'r nifer fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth yn is na'r disgwyl. . Aeth y Cynghorydd Jones ymlaen i gyfeirio at ganllawiau WRAP (Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau) oedd yn pwysleisio darparu biniau compost a gofynnodd pa un a oedd y Cyngor yn gallu darparu'r rhain gan eu bod angen bod yn effeithiol ac yn werth am arian.

Dywedodd y Cynghorydd Hutchinson nad oedd unrhyw elfen o gefnogaeth yn y cynigion presennol i'r sawl nad oedd yn gallu fforddio talu'r ffi. Roedd y Cynghorydd Mackie yn bryderus bod diffyg Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn yr adroddiad gwreiddiol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor ar 20 Tachwedd. Felly, ei brif bryder am y cynigion oedd y diffyg gwybodaeth a ddarparwyd i'r Aelodau.

Wrth gwblhau'r cyflwyniad gan y dechreuwyr, cyfeiriodd y Cynghorydd Carver at baragraff 3.05 yn adroddiad y Cabinet. Roedd hwn yn cyfeirio at gyfnod pellach o ymgynghori unwaith yr oedd y gwasanaeth wedi'i sefydlu i edrych ar faterion fel blwyddyn lawn yn hytrach na chasgliad ar gyfer rhan o'r flwyddyn ar gyfer defnyddio dulliau talu microsglodyn a chyfraddau gostyngol i drigolion ar fudd-daliadau. Dywedodd y dylai hyn fod yn rhan o'r cynllun o'r dechrau. Aeth ymlaen i son am Gyfamod Cymuned y Lluoedd Arfog a'r effaith bosibl ar gyn-filwyr sy'n cynnwys garddio fel eu hunig ddiddordeb. Roedd hefyd yn bryderus am allu systemau TG y Cyngor i ddelio gyda llwyth o geisiadau am y gwasanaeth. Aeth ymlaen i son am sut yr oedd sylwadau a wnaed gan yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Carolyn Thomas wedi eu cyflwyno yn y wasg.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Carver at y cyn Gampws Ysgol Uwchradd John Summers a'r gost o sicrhau diogelwch yr adeilad 24 awr y dydd. Roedd yn erfyn ar y Cyngor i'w ddymchwel a galluogi arbedion o tua £60,000 sef y tâl presennol ar gyfer cyfraddau annomestig. Byddai hyn yn cyfrannu at y diffyg yn y gyllideb.

Ymatebion gan y penderfynwyr

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r rhai oedd wedi Galw i Mewn am eglurhad trylwyr. O ran y broses, atgoffodd y Pwyllgor bod Polisi Corfforaethol ar gyfer ffioedd a thaliadau wedi bod ar waith ers y llynedd. Un o egwyddorion y polisi oedd adfer cost llawn gwasanaethau dewisol lle bo'n bosibl.

O safbwynt y defnydd o gofnodion heb eu cymeradwyo, eglurodd y Prif Weithredwr y gwnaed yn glir mai cofnodion drafft oedd y rhain. Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd wedi pwysleisio hyn pan wnaeth eu cyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet, i gynorthwyo gyda'u hystyriaethau. Roeddent wedi eu rhannu i gynorthwyo'r drafodaeth. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd wedi cadarnhau ei fod yn fodlon eu bod yn adlewyrchu'r drafodaeth a gynhaliwyd yn gywir. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai protocol ar y defnydd o gofnodion drafft yn cael ei baratoi i osgoi unrhyw ddryswch neu her arall yn y dyfodol. Gan gyfeirio at y Glasbrint Gwastraff, atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau nad oedd casglu gwastraff gardd yn wasanaeth gorfodol. Roedd yn cydnabod bod yna ddilysrwydd i'r ddadl capasiti biniau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Jones ond pwysleisiodd y dylid adfer y costau o ddarparu gwasanaeth nad yw'n orfodol fel targed gwaith ar gyfer lefel incwm i'r Cyngor. Byddai'r gost i dai sy'n derbyn y gwasanaeth yn llawer llai na £1 yr wythnos.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i egluro i'r Pwyllgor er nad oedd CIPFA, fel y soniwyd gan y Cynghorydd Peers wedi'i ddefnyddio, roedd y Cyngor wedi dod â Deloittes i mewn y llynedd, cwmni cyngor ariannol ac ymgynghoriaeth mawr. Roeddent wedi cynnal asesiad o ffioedd a thaliadau'r Cyngor, fel rhan o adolygiad a arweiniodd at fabwysiadu'r polisi ffioedd a thaliadau corfforaethol gyda phwyslais ar adfer costau llawn i wasanaethau.

Aeth y Prif Weithredwr ymlaen i egluro yn ystod cyflwyniad y symbylwr o'u hachos roedd wedi nodi pwyntiau amlwg i ymatebion manwl fel a ganlyn:-

(i) Hybu compostio cynnyrch cartref yn well;
(ii) Ystyried maint bin;
(iii) Sail cost;
(iv) Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb
(v) Y broses adolygu
(vi) Cadarnrwydd y ddadl derbyn

Wrth gyfeirio at yr adolygiad, awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai gynnwys: sut gall y Cyngor wella cyfraddau compostio; yr effaith ar bobl ddiamddiffyn o ran eu cyfraniad oherwydd fforddiadwyedd, ystyried maint bin mwy e.e. 240L, y cyfraddau derbyn a monitro unrhyw gynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Gwahoddodd gydweithwyr i gyflwyno sylwadau ar y pwyntiau hynny.

Atgoffodd y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd y Pwyllgor bod y ffioedd yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i Lywodraeth Cymru yn gostwng y Grant Amgylchedd Sengl dros y 2 flynedd ddiwethaf. Rhagwelir gostyngiadau pellach ar gyfer y dyfodol. Eglurodd mai bwriad ei sylwadau ym mhapur newydd y Leader oedd cyfleu pwysigrwydd codi ffi am wasanaethau nad oedd yn orfodol er mwyn gwarchod gwasanaethau gorfodol fel Addysg rhag toriadau. Roedd yn cydnabod dilysrwydd hybu mwy o gompostio cynnyrch cartref a dywedodd y gellir cynnwys gwybodaeth am hyn yn y taflenni ynglŷn â chyflwyno ffioedd casglu gwastraff gardd. Roedd y ffioedd arfaethedig o 83c yr wythnos yn cynrychioli gwerth am arian.

Roedd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) yn cefnogi sylwadau'r Aelod Cabinet a chyfeiriodd at y ddolen yn yr adroddiad gwreiddiol i nodyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud y dylai'r Cyngor Sir godi ffioedd am gasgliadau gwastraff gwyrdd. Roedd Llywodraeth Cymru yn darparu £3miliwn o Grant Amgylchedd Sengl i'r Cyngor ar hyn o bryd ac felly roedd eu barn yn bwysig. Dywedodd fod y Cyngor wedi darparu biniau compost yn y gorffennol, a thrwy grant wedi gallu eu cynnig am ddim. Roedd darparu biniau compost am gost yn bosibilrwydd y gellir ei ymchwilio a gellir cyflwyno canllawiau ar hyn.

O safbwynt cadarnhau'r gost, roedd manylion wedi eu dosbarthu i'r Pwyllgor y bore hwnnw oedd yn nodi'r angen i dalu'n llawn am y Gwasanaeth Gwastraff Gardd i alluogi'r Grant Amgylchedd Sengl gefnogi gweddill y gwasanaeth. Roedd yn gwerthfawrogi'r pryderon i'r bobl hŷn a diamddiffyn a dywedodd y byddai hyn yn rhywbeth fyddai'n cael ei asesu yn y flwyddyn gyntaf, fel dull dysgu ac awgrymwyd y gall y Pwyllgor Adolygu hyn fel rhan o'i rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Aeth ymlaen i atgoffa'r Pwyllgor fod gan Sir y Fflint bump canolfan ailgylchu gwastraff tai wedi eu lleoli'n strategol ac roedd 90% o'r boblogaeth o fewn 3 milltir neu 15 munud o siwrnai mewn car o'u cartref. Byddai'r Gwasanaeth Casglu â Chymorth ar gyfer y sawl oedd ei angen yn parhau i weithredu ac yn parhau yn rhad ac am ddim. Byddai cynigion ar gyfer cynllun wrth gefn yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau y flwyddyn nesaf, fel rhan o'r adolygiad.

Gan gyfeirio at y pryder am fwy o dipio anghyfreithlon, atgoffodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor bod hyn yn drosedd ond nad oedd unrhyw dystiolaeth o gynnydd o fewn Cynghorau oedd eisoes wedi cyflwyno ffi. Roedd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal a byddai'n cael ei ddosbarthu i Aelodau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Strydwedd yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff o amgylch 60,000 o gartrefi a bod y gyfradd methu casgliadau yn llai na 0.08%.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi eistedd i mewn ar gyfer y rhan fwyaf o drafodaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd ym mis Tachwedd ac nad oedd wedi clywed llawer o bethau newydd gan y sawl oedd yn Galw i Mewn. Roedd y Cabinet wedi gwneud ei benderfynaid gyda'r wybodaeth o argymhellion cynt y Pwyllgor a eglurwyd iddo gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn y cyfarfod ar 19 Rhagfyr. Dylai'r egwyddor gynnwys adfer cost llawn. Os na chyflawnir hyn byddai'n cael effaith ddifrifol mewn mannau eraill. Dywedodd fod y Cabinet wedi ymrwymo i beidio gwneud toriadau mewn gwasanaethau i gydbwyso'r gyllideb.

Yna cyfeiriodd yr Arweinydd at y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a'r effaith posibl o ostyngiadau i'r cartrefi hynny. Aeth ymlaen i son am sylwadau Aelodau'r Cabinet yn cael eu hystyried allan o gyd-destun yn y wasg. Ymatebodd y Cynghorydd Carver nad oedd wedi camddehongli sylwadau'r Cynghorydd Thomas: yn syml roedd wedi darllen y sylwadau a briodolwyd gan y newyddiadurwr oedd wedi ysgrifennu'r stori.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd Carver, dywedodd y Prif Swyddog fod gan ICT y capasiti i weithredu'r cynllun a bod trefniadau eisoes wedi eu gwneud ar

gyfer hyn. Hefyd, eglurodd os byddai’r Pwyllgor yn penderfynu argymell peidio codi tâl am yr ail a’r trydydd bin gan y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor i gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Atgoffodd y Cynghorydd Paul Shotton gydweithwyr y byddai’r Cyngor yn codi llai na £1 yr wythnos am wasanaeth a oedd yn ddewisol. Roedd y Grant Amgylchedd Sengl wedi’i dorri dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn fodlon y byddai’r mater compostio cynnyrch cartref yn derbyn sylw ac ar sail hynny roedd yn cynnig Dewis 1.

Roedd y Cynghorydd Dave Healey hefyd yn cefnogi Dewis1 a dywedodd y bu’n benderfyniad cyfrifol i godi ffi am gasglu gwastraff gwyrdd. Roedd hyn yn rhan o ddarlun mwy: y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn cyfarfod yn hwyrach yn yr wythnos i ystyried Cyllideb Ysgolion, oedd hefyd o dan bwysau. Roedd Aelodau eraill yn cefnogi ei farn.

Roedd y Cynghorydd Gay yn gwrthod cyflwyno’r ffi a gofynnodd am bleidlais wedi'i chofnodi ar y mater. Roedd gan y Cynghorydd Owen Thomas nifer o bryderon am allu Strydwedd i ddarparu’r gwasanaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid yn ystyried cyllideb arian gwastad i ysgolion yn ei gyfarfod brynhawn dydd Iau. Roedd y Cyngor yn parhau heb gydbwyso’r gyllideb a dyma oedd realiti sefyllfa’r gyllideb.

Cytunodd y Cynghorydd Haydn Bateman nad oedd unrhyw un yn hapus i gyflwyno’r ffioedd arfaethedig ond awgrymodd y byddai’r rhain yn fwy dymunol os byddai’r Cyngor yn cyflwyno biniau 240 litr mwy yn hytrach na’r biniau 140 litr presennol a hefyd cael gwared ar y ffioedd am finiau ychwanegol. Ailbwysleisiodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) y gellir edrych ar ddarparu biniau mwy ond byddai’n cynnwys cost. Byddai cael gwared ar ffioedd am ail a thrydydd bin yn bendant yn cynyddu costau.

Roedd y Cynghorydd Dolphin yn llongyfarch symbylwyr y Galw i Mewn gan fod eu camau wedi ysgogi meddwl am nifer o faterion fel darparu biniau compost rhatach.

Yn dilyn y drafodaeth, gwahoddodd y Cadeirydd y Symbylwyr a’r Penderfynwyr i grynhoi eu dadleuon.

Diolchodd y Cynghorydd Peers i’r Pwyllgor am eu hystyriaeth a phwysleisiodd ei fod yn parhau i ddadlau’r elfen costau adfer gan ei fod yn teimlo bod y drefn ffioedd arfaethedig uwchben adfer costau ac nad oedd yna unrhyw beth i’w gynnig i bobl hŷn, diamddiffyn a heb gludiant. Roedd yn cydnabod y byddai’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei ddosbarthu. Roedd yn parhau i deimlo y dylai’r mater ddychwelyd i’r Cabinet. Roedd y farn hon yn cael ei hadleisio gan y Cynghorydd Richard Jones oedd yn fwy pryderus am resymoldeb y ffioedd gan y dywedodd o dan y cynigion presennol y byddai Sir y Fflint naill ai'n codi dwbl neu 2.5 gwaith yn fwy nag unrhyw gyngor arall.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr nad oedd hwn yn wasanaeth gorfodol ac y byddai'r syniadau a gyflwynwyd heddiw ar gompostio wedi eu hystyried.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud Penderfyniad, gwahoddodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i egluro'r broses gwneud penderfyniad, a fyddai'n cynnwys pleidlais wedi'i chofnodi.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mewn Pwyllgor, mai'r nifer o Aelodau oedd eu hangen i ofyn am bleidlais wedi'i chofnodi oedd pedwar. Yna roedd y nifer gofynnol o Aelodau yn dangos eu cefnogaeth. Roedd y Cynghorydd Paul Shotton wedi argymell Dewis 1 yn gynt, ar ôl ystyried penderfyniad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu roedd yn fodlon gyda'r eglurhad a dderbyniodd. Roedd y Cynghorydd Dave Healey yn eilio hyn. Roedd y Cynghorydd Chris Dolphin wedi cynnig Dewis 4, ond eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer galw i mewn, roedd pob Dewis angen pleidlais arno yn ei dro, cyn y gellir ystyried dewis pellach.

Wrth gynnal pleidlais, cafodd Dewis 1 ei gario fel a ganlyn:-

**O blaid y Cynnig:** Councillors Ray Hughes, Haydn Bateman, Sean Bibby, Andy Dunbobbin, Dave Healey, Ian Dunbar, Dave Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect a Paul Shotton.

**Yn erbyn y Cynnig:** Cynghorwyr Mike Allport, Chris Dolphin, Veronica Gay ac Owen Thomas.

**Ymatal:** Cynghorydd Colin Legg

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried yr eglurhad a dderbyniodd, mae'r Pwyllgor yn fodlon a gall y penderfyniad i gyflwyno ffi casglu gwastraff gardd yn Sir y Fflint gael ei weithredu.

Cyn yr eitem nesaf, cafodd y Pwyllgor egwyl am 5 munud.

**55. COFNODION**

(i) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2017.

Cywirdeb

Cyfeiriodd y Cynghorydd Veronica Gay at y paragraff olaf ar dudalen 21 a dywedodd fod y Cynghorydd Peers wedi cynnig bod y penderfyniad ar pa un ai i weithredu polisi ffi ar gyfer y gwasanaeth Gwastraff Gardd yn cael ei adolygu a gofynnodd i'r cofnodion gael eu newid i adlewyrchu hyn. Dywedodd y Cadeirydd fod yr Arweinydd wedi dweud yn flaenorol ei fod yn bresennol yn y cyfarfod nad oedd wedi'i gofnodi.

(ii) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 56. CYLLIDEB CAM 2: ADOLYGIAD O GOSTAU PARCIO CEIR

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad yn gofym am argymhelliad gan y Pwyllgor ar y ffioedd meysydd parcio arfaethedig ym mhob maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor. Rhoddodd wybodaeth gefndirol a dywedodd nad oedd y ffioedd meysydd parcio wedi eu hadolygu ers eu cyflwyno ac nad oedd yr incwm a gynhyrchwyd yn diwallu cost llawn rheoli a gweithredu'r meysydd parcio. Roedd y sefyllfa hon yn groes i bolisi corfforaethol y Cyngor sydd newydd ei fabwysiadu ar gyfer ffioedd a thaliadau, sy'n disgwyl bod swyddogaethau nad ydynt yn orfodol ond y gellir codi tâl amdanynt, yn cael eu rhoi ar sail adennill costau llawn, lle bynnag y bo'n bosibl.

Dywedodd y Prif Swyddog bod y trefniadau ffioedd diwygiedig arfaethedig wedi eu dangos yn Atodiad 1 yr adroddiad. Roedd yna 2 ddewis ar gyfer y ffioedd diwygiedig a gofynnwyd i'r Pwyllgor fynegi pa un o'r dewisiadau a ffefrir. Roedd y ffioedd arfaethedig wedi eu hystyried yn rhesymol a byddent yn parhau'n isel wrth gymharu costau parcio yn Sir y Fflint gyda siroedd eraill yng Nghymru. Eglurodd y Prif Swyddog y byddai adolygiad ac asesiad o effaith pellach yn cael eu cynnal chwe mis ar ôl cyflwyno'r ffioedd newydd ac adroddir yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2018.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Dolphin at y ffioedd arfaethedig ac eglurodd ei farn na ddylid safoni'r ffioedd ar draws pob maes parcio yn Sir y Fflint. Soniodd am y cyfleusterau, siopau a gwasanaethau a ddarparwyd o fewn pob tref a dywedodd bod angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth gynnig newidiadau i'r trefniadau ffioedd presennol. Gofynnodd y Cynghorydd Dolphin i'r tariff presennol barhau yn Nhreffynnon. Hefyd eglurodd bod yna ddau faes parcio wedi eu lleoli yn agos at ei gilydd yn Nhreffynnon a gofynnodd i'r rhain gael eu huno o dan yr un enw gyda'r un ffioedd parcio i gynorthwyo trigolion sy'n defnyddio'r cyfleusterau lleol; gan ystyried Canolfan Hamdden Treffynnon fel enghraifft.

Cytunodd y Cynghorwyr Haydn Bateman ac Owen Thomas gyda'r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd Dolphin y dylai ffioedd maes parcio yn Sir y Fflint gael eu safoni. Teimlodd y Cynghorwyr Haydn Bateman a Dave Hughes y dylai ffioedd gael eu safoni yn unol â'r ffioedd presennol yn yr Wyddgrug.

Roedd y Cynghorydd Sean Bibby yn cynnig newid i'r ddau opsiwn ar gyfer meysydd parcio Bwcle, Cei Connah, Treffynnon, Queensferry a Shotton a chynigiodd dariff ychwanegol o 20c ar gyfer y 30 munud cyntaf. Roedd y Cynghorydd Ian Dunbar yn eilio hyn.

Ailbwysleisiodd y Cynghorydd Richard Jones nad oedd pob tref yn darparu'r un cyfleusterau a dywedodd bod parcio am ddim yn cynyddu'r ymwelwyr â chanol y dref gan fod pobl yn gyfarwydd â siopa yn yr ardal honno. Hefyd soniodd am gost darparu a chynnal a chadw meysydd parcio a dywedodd y dylai'r wybodaeth ar wariant ac incwm a dderbyniwyd o bob un o'r meysydd

parcio yn Sir y Fflint fod ar gael ar gyfer cymharu ac i bennu lefelau incwm yn y dyfodol. Mynegodd y farn nad oedd rhai meysydd parcio yn cael eu defnyddio'n llawn. Nid oedd y Cynghorydd Jones yn cefnogi unrhyw gynnydd mewn ffioedd meysydd parcio ym Mwcle gan ei fod yn teimlo na fyddai hyn yn denu busnes masnachol newydd i'r ardal nac yn cefnogi manwerthwyr a thrigolion lleol presennol. Roedd y Cynghorydd Jones yn cynnig nad oedd newid mewn ffioedd meysydd parcio yn Sir y Fflint ac y dylid dod o hyd i'r incwm oedd ei angen ar gyfer y diffyg yn y bwlch yn y gyllideb o wasanaethau eraill.

Roedd y Cynghorydd Aaron Shotton yn cydnabod bod y mater o godi ffioedd yn un dadleuol a bod bywiogrwydd canol y drefn yn ystyriaeth bwysig. Dywedodd fod y camau yn unol â Pholisi Ffioedd a Thaliadau a Strategaeth Parcio'r Cyngor a dywedodd am yr angen i gynhyrchu mwy o refeniw gan adfer cost llawn lle bo'n bosibl. Cyfeiriodd at yr angen i gydbwyso'r gyllideb flynyddol a dywedodd am y diffyg presennol a dywedodd fod yn rhaid codi lefelau incwm ar draws yr holl wasanaethau i fynd i'r afael â'r 'bwlch' yn y gyllideb. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr yr angen am sicrwydd incwm wrth gynllunio cyllideb flynyddol.

Mynegodd y Cynghorydd Veronica Gay y farn y dylai'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd ar gyfer Gorsaf Rheilffordd y Fflint fod yn uwch. Fodd bynnag, roedd y Cynghorydd Vicky Perfect yn teimlo bod y ffioedd arfaethedig yn dderbyniol.

Dywedodd y Cynghorydd Mike Peers am Strategaeth Maes Parcio'r Cyngor a'r Polisi Ffioedd a Thaliadau a dywedodd y dylid ei adolygu i edrych ar yr ardaloedd hynny nad oedd wedi eu cyfrif yn wreiddiol. Ychwanegodd bod gan y meysydd parcio llai hefyd y potensial i gynyddu incwm i'r Awdurdod. Gan gyfeirio at ardal y Fflint, gofynnodd y Cynghorydd Peers a oedd yn bosibl ailgodi tâl am gost colli incwm yn yr ardal honno. Mynegodd y farn nad oedd y sefyllfa yr un fath ym mhob man a bod yna ddefnydd mawr a bach o feysydd parcio yng nghanol trefi Sir y Fflint. Hefyd soniodd am effaith dadloeli ac argaeledd parcio "oddi ar y stryd" a'r gwahaniaeth mewn ardaloedd. Roedd y Cynghorydd Peers yn cynnig na ddylid codi tâl am barcio am hyd at 30 munud mewn maes parcio arhosiad byr ac y dylid codi tâl o 20c am hyd at 1 awr mewn meysydd parcio eraill.

Roedd y Cadeirydd yn cytuno na ddylid cynnig parcio am ddim a soniodd am gost cynnal a chadw pob maes parcio.

Dywedodd y Cynghorydd Chris Dolphin y dylai'r ymgynghoriad gael ei gynnal gyda Chynghorau Tref lleol yn ymwneud â chynigion i gynyddu ffioedd maes parcio i gael eu barn ar beth sy'n rhesymol ac yn fforddiadwy yn eu hardaloedd.

Roedd y Cynghorydd Richard Jones yn cynnig trydydd dewis i gadw'r ffioedd presennol ac i ddadansoddi cost rhedeg pob maes parcio.

Oherwydd y nifer o sylwadau a phryderon a gyflwynwyd roedd yr Arweinydd yn cynnig yn hytrach na phleidleisio ar y dewisiadau o fewn yr adroddiad, y dylid gofyn i'r Cabinet ystyried yr holl gynigion a gyflwynwyd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd bod y cynigion ychwanegol a godwyd gan y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y sylwadau a'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.

**57. ADOLYGIAD O'R POLISI TORRI GWAIR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Carolyn Thomas yr adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor am y Polisi Torri Gwair a adolygwyd. Gwahoddodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) i gyflwyno'r adroddiad.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndirol ac eglurodd bod yr adroddiad yn rhoi manylion y safonau a ddilynwyd ym mhob lleoliad a'r dewis darparu gwasanaeth a ffefrir ym mhob achos. Roedd yr adroddiad yn manylu'r safonau torri gwair ar y priffyrdd yn benodol ac yn dangos cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r Cod Ymarfer Priffyrdd diweddaraf a ryddhawyd ym Mawrth 2017. Dywedodd y Prif Swyddog am y prif newidiadau i'r polisi presennol fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at y Polisi diwygiedig oedd ynghlwm â'r adroddiad a dywedodd nad oedd yn nodi'r hyn oedd wedi'i dynnu allan o'r adroddiad gwreiddiol ac felly nad oedd yn bosibl gweld pa newidiadau a wnaed i'r polisi diwygiedig. Soniodd y Cynghorydd Jones am bwysigrwydd casglu sbwriel, yn arbennig cyn y toriad cyntaf.

Ymatebodd y Prif Swyddog i'r sylwadau a'r pryderon a godwyd gan Aelodau ynghylch gweld ar briffyrdd, mynedfeydd, ymyl glaswellt a sbwriel. Mewn ymateb i'r pryderon gan y Cynghorydd Colin Legg ynglŷn â Gingroen, eglurodd y Prif Swyddog y gweithdrefnau ar gyfer rheoli twf a gwaredu Gingroen.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo Polisi Torri Gwair diwygiedig y Cyngor.

**58. CYNLLUN COED A CHOETIROEDD TREFOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Carolyn Thomas yr adroddiad i gynghori ar amcanion a chamau yn y Cynllun Coed a Choetir Trefol a gwahoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) i gyflwyno'r adroddiad.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a dywedodd fod y Strategaeth Coed a Choetir Trefol yn darparu dull ar gyfer rheoli coed a choetiroedd yn fwy cynaliadwy i ddiwallu dyheadau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

Roedd y Strategaeth yn archwilio'r cyfleoedd ar gyfer plannu coed, sut y gwneir hyn, ac mae'n darparu dull arfer gorau i reoli coed presennol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y weledigaeth, amcanion a chamau fel y nodwyd yn y Strategaeth oedd ynghlwm â'r adroddiad.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd, eglurodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol yr ymgysylltir â chymunedau lleol ynglŷn â lleoliad plannu coed a hefyd i gynnwys y gymuned yn y broses o blannu'r coed.

Croesawodd y Cynghorydd Veronica Gay yr adroddiad ac roedd yn gefnogol i gynnwys cymunedau lleol a fyddai'n gwarchod coed trefol a choetir lleol yn y dyfodol ac yn atal fandaliaeth.

Roedd y Cynghorydd Owen Thomas yn mynegi pryderon ei bod yn anodd gweld ar rai priffyrdd oherwydd bod coed yn cael eu plannu a gofynnodd a gellir cael golwg ar hyn.

Soniodd y Cynghorydd Ian Dunbar am y mater o fandaliaeth i goed hefyd a gofynnodd a oedd unrhyw fath o warchodaeth. Hefyd, gofynnodd pwy oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw plannu coed yn y dyfodol.

Ymatebodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol i'r pryderon a'r cwestiynau am ddiogelu coed a dywedodd fod plannu'r "goeden iawn" yn y "lleoliad iawn" yn ystyriaeth hanfodol. Hefyd dywedodd fod cynnwys plant yn uniongyrchol mewn plannu coed yn datblygu parch i bwysigrwydd a gwarchod coed a choetiroedd yn y dyfodol. Gan gyfeirio at gynnal a chadw coed, eglurodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol bod y rhan fwyaf o'r mannau lle'r oedd coed yn cael eu plannu o dan reolaeth yr Awdurdod a dywedodd nad oedd cost cynnal a chadw yn ddrud yn y tymor hir. Roedd yn cynghori bod y Strategaeth yn ystyried sut i ddatblygu gwytnwch i stoc coed ar gyfer y dyfodol gyda'r bwriad i ddarparu amrywiaeth o wahanol rywogaethau ar draws y Sir.

Soniodd y Cynghorydd Paul Shotton am fudd i iechyd o ganlyniad i lai o lygredd aer o ganlyniad i blannu coed. Cyfeiriodd at y cynllun 'Ein Iard Gefn' a ddefnyddiwyd gan Gyngor Tref Cei Connah a oedd yn profi'n fuddiol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y weledigaeth, amcanion a'r camau fel y nodwyd yn y Strategaeth Coed a Choedwigaeth Trefol yn cael eu cymeradwyo.

## 59. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried. Dywedodd y cytunwyd y byddai cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor yn cael ei drefnu yn ystod mis Chwefror a byddai'r Aelodau'n derbyn e-bost i gadarnhau'r dyddiad. Hefyd dywedodd yr Hwylusydd bod gwahoddiad wedi'i anfon at aelodau'r Pwyllgor i fynychu ymweliad safle ym Mharc Adfer ar 21 Chwefror 2018 am 10.00am.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei newid; a

(b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd fel bo'r angen.

## 60. <u>AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD</u>

Roedd yna un aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 yb a daeth i ben am 2.17 yp)

..................................................

**Cadeirydd**